## TASG 3

**(Estynnol, sbardun 2)**

**Gwaith grŵp**

1. Chwiliwch am luniau o Lanbedr, Gwynedd, ar y we.
   Trafodwch pa fath o le yw Llanbedr heddiw.

2. Cymharwch eich syniadau chi â syniadau grwpiau eraill.

3. Trafodwch:
   Ydych chi'n meddwl bod adeiladu maes rocedi mewn lle fel Llanbedr yn syniad da?
   Meddyliwch am bethau fel:
   - yr effaith ar y bobl
   - yr effaith ar yr economi
   - yr effaith ar dwristiaeth
   - yr effaith ar y tir
   - yr effaith ar yr amgylchedd.

   Cofnodwch y prif bwyntiau ar ffurf pwyntiau bwled.

______________________________________________________________________

______________________________________________________________________

______________________________________________________________________

______________________________________________________________________

______________________________________________________________________

______________________________________________________________________

4. Cymharwch eich syniadau chi â syniadau grwpiau eraill.

5. Rydych chi'n clywed am gynllun i adeiladu maes rocedi yn eich ardal chi. Ysgrifennwch e-bost at eich Aelod Cynulliad sydd naill ai'n cefnogi'r syniad neu'n ei wrthwynebu.

   Defnyddiwch y wybodaeth yng nghwestiwn 3 uchod yn ogystal ag unrhyw wybodaeth berthnasol arall.